# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Mercher, 23 Hydref 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, C.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, E.G. Thomas and J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
M. Heath, Swyddog Trwyddedu
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.25 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T.J. Jones, J.S. Phillips a E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. ATAL TRWYDDED CERBYD HACNAI HC 917 - CERBYD Â'R RHIF COFRESTRU CP59 KYV

Yn unol â chofnod 9 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2019 rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr John Keith Rees o Llan Taxis, 19 Zion Row, Llanelli wedi bod yn defnyddio Cerbyd Hacnai HC 917, Rhif Cofrestru CP59 KYV, yn groes i Amodau Trwyddedu y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacnai.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Rees ynghylch y mater hwnnw. Roedd Mr Rees yng nghwmni ei wraig a roddodd wybod i'r Pwyllgor am yr amgylchiadau o ran un o'r achosion o dorri amodau dan sylw, fel yr amlinellwyd gan Mr Rees.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Trwydded Cerbyd Hacnai Mr Rees sef trwydded HC917 yn cael ei hatal am 14 diwrnod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD peidio ag atal Trwydded Cerbyd Hacnai Mr Rees sef trwydded HC917, ond bod Mr Rees yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. MR BENJAMIN JONES - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Benjamin Jones o Fflat 4 Ravenhall, Duncan Street, Talacharn am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jones ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jones yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Benjamin Jones am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR MATTHEW PEGRAM - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Matthew Pegram o 16 Plas Isaf, Llangennech am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Pegram ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Pegram yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Matthew Pegram am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 6. MR AARON LEE COELHO - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Aaron Lee Coelho o 4 Heol Gwendraeth, Porth Tywyn, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr. Coelho ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Coelho yn cael ei wrthod.

Ar hynny

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD ganiatáu cais Mr Coelho am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rhesymau
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**7. MR PAUL ANTHONY DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod fod cais wedi dod i law gan Mr Davies, ar ôl i agenda'r cyfarfod gael ei ddosbarthu, yn gofyn am i'w gais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, ar gais yr ymgeisydd, ohirio ystyried cais Mr Paul Anthony Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2019.**

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 10FED MEDI 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "B" a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019, gan eu bod yn gywir.**

**9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 25AIN MEDI 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "A" a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019, gan eu bod yn gywir.**

**10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12FED MEDI 2019.**

**Bu aelodau'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion ei gyfarfod ar 12 Medi a nodwyd nad oedd yr ymddiheuriadau a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr P. Edwards a C.A. Davies wedi'u cofnodi.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Medi 2019, gan eu bod yn gywir, yn amodol ar gynnwys y Cynghorwyr P. Edwards a C.A. Davies yn y rhestr o ymddiheuriadau a dderbyniwyd.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**